# Hawl genedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol

## Hawliau a disgwyliadau o ran dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon a chynorthwywyr addysgu

| Datganiadau hawl/disgwyliad i athrawon a chynorthwywyr addysgu | Arferion effeithiol wrth fodloni ac ymateb i'r hawl/disgwyliad | Arferion effeithiol iawn a pharhaus wrth fodloni ac ymateb i'r hawl/disgwyliad (yn ychwanegol at y rhai a nodir yn y golofn arferion effeithiol) |
|---|---|---|
| 1. Fel ymarferydd mae gen i hawl i daith dysgu proffesiynol unigol a gefnogir gan arweinwyr fy ysgol neu fy lleoliad. | Cynllun dysgu proffesiynol ar gyfer y flwyddyn i ddod sydd:<br>• o fudd i ddysgwyr rydych yn eu haddysgu yn eich ysgol neu'ch lleoliad ac sy'n bodloni eu hanghenion<br>• yn ymestyn yn gyson eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch dealltwriaeth mewn perthynas â'ch rôl bresennol<br>• yn rhoi ymreolaeth ichi ddechrau ystod o weithgareddau, ymwneud â nhw a chyfrannu atynt | Cynllun dysgu proffesiynol bras ar gyfer y 2 i 5 mlynedd nesaf i gefnogi eich llwybr gyrfa i'r dyfodol, a fydd:<br>• o fudd i ddysgwyr ar draws ysgolion neu leoliadau, y tu hwnt i'r rhai rydych chi'n eu haddysgu<br>• yn ymestyn eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch dealltwriaeth ar gyfer rolau yn y dyfodol<br>• yn cynnig cyfleoedd i gyfrannu at gydweithio lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a chydgefnogaeth |
| 1. Fel ymarferydd mae disgwyl i mi fynd ati i ddatblygu fy nhaith dysgu proffesiynol a'i hystyried, gyda chefnogaeth arweinwyr fy ysgol neu fy lleoliad. | • Ymrwymo i fanteisio ar eich cyfleoedd dysgu proffesiynol a gweithgareddau cysylltiedig, a rhoi amser i fyfyrio arnynt.<br>• Defnyddio'ch Pasbort Dysgu Proffesiynol i gofnodi eich myfyrdodau. | • Defnyddio eich Pasbort Dysgu Proffesiynol i ragweld eich anghenion yn y dyfodol a sbarduno rhagor o ddysgu proffesiynol.<br>• Rhannu'ch myfyrdodau yn eich Pasbort Dysgu Proffesiynol gyda'ch cydweithwyr, gan gynnwys cydweithwyr ar lefel uwch, i gefnogi datblygiad yr ysgol neu'r lleoliad fel sefydliad sy'n dysgu. |

| Datganiadau hawl/disgwyliad i athrawon a chynorthwywyr addysgu | Arferion effeithiol wrth fodloni ac ymateb i'r hawl/disgwyliad | Arferion effeithiol iawn a pharhaus wrth fodloni ac ymateb i'r hawl/disgwyliad (yn ychwanegol at y rhai a nodir yn y golofn arferion effeithiol) |
|---|---|---|
| 2. Fel ymarferydd mae gen i hawl i gyfleoedd dysgu proffesiynol sydd wedi'u cynllunio'n dda, yn seiliedig ar egwyddorion y dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol, sy'n cynnwys cyfuniad o ddulliau a chyfleoedd i fyfyrio, ymholi a chydweithio ar gyfer dysgu. | • Mynediad at raglen dysgu proffesiynol wedi'i chynllunio ac adnoddau sy'n ysgogi.<br>• Gweithio mewn ysgol neu leoliad sy'n ymholi ynghylch eu meysydd blaenoriaeth.<br>• Cydweithio pwrpasol rhwng cydweithwyr yn eich ysgol, eich lleoliad neu'ch clwstwr. | • Cyfleoedd i gyfrannu at ddarpariaeth dysgu proffesiynol, er enghraifft i rannu safbwyntiau ac arferion.<br>• Mae'ch ysgol neu'ch lleoliad yn ymgysylltu â rhaglenni ymholi clystyrau, awdurdodau lleol a/neu ranbarthol.<br>• Cyfleoedd i gydweithio'n bwrpasol ag ysgolion neu leoliadau eraill ar lefel ranbarthol, cenedlaethol a/neu ryngwladol. |
| 2. Fel ymarferydd mae disgwyl i mi fynd ati i fanteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol a gwneud defnydd cadarnhaol o'r amser a ddyrennir ar ei gyfer, gan gynnwys amser hyfforddiant mewn swydd. | • Cymryd camau rhagweithiol i fanteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol a gynllunnir a manteisio ar adnoddau sydd ar gael i'ch cefnogi o fewn yr amser a ddyrennir.<br>• Mynd ati i fyfyrio ac ymholi er mwyn gwella arferion a mabwysiadu dulliau newydd.<br>• Cymryd camau rhagweithiol i gydweithio ag eraill yn eich ysgol, eich lleoliad neu'ch clwstwr eich hun i hyrwyddo'r arfer o ddysgu oddi wrth eich gilydd. | • Cyfrannu at ddysgu proffesiynol neu weithgarwch hyfforddiant mewn swydd, a'i arwain, pan fydd yn berthnasol, yn briodol ac yn cefnogi'r arfer o ddysgu oddi wrth eich gilydd.<br>• Cydweithio ag ymarferwyr mewn ysgolion neu leoliadau eraill pan fydd cyfleoedd sy'n ymwneud â'ch taith dysgu proffesiynol yn codi. |
| 3. Fel ymarferydd mae gen i hawl i weithio mewn ysgol neu leoliad sy'n ystyried ei hun yn sefydliad sy'n | • Teimlo'n rhan o ysgol neu leoliad lle mae ethos o gydweithio i hyrwyddo'r arfer o ddysgu fel tîm, o fewn | • Mae cynllun datblygu eich ysgol neu'ch lleoliad yn seiliedig ar ddefnydd hunanfeirniadol o arolwg ysgolion fel |

| Datganiadau hawl/disgwyliad i athrawon a chynorthwywyr addysgu | Arferion effeithiol wrth fodloni ac ymateb i'r hawl/disgwyliad | Arferion effeithiol iawn a pharhaus wrth fodloni ac ymateb i'r hawl/disgwyliad (yn ychwanegol at y rhai a nodir yn y golofn arferion effeithiol) |
|---|---|---|
| dysgu, a lle mae’r defnydd o'r safonau proffesiynol yn rhan annatod o bob agwedd ar ddatblygiad proffesiynol. | diwylliant o ymholi, i wireddu gweledigaeth gyffredin.<br>• Mae’r ysgol neu'r lleoliad yn defnyddio arolwg ysgolion fel sefydliadau sy’n dysgu i nodi meysydd i’w gwella.<br>• Defnyddio’r safonau proffesiynol i ystyried a llywio eich taith dysgu proffesiynol unigol. | sefydliadau sy’n dysgu, ac yn herio ei hun yn gyson i wella.<br>• Defnyddio safonau proffesiynol i sbarduno ymdrechion parhaus o ran dysgu proffesiynol a hyrwyddo arloesedd ar draws eich ysgol neu’ch lleoliad. |
| 3. Fel ymarferydd mae disgwyl i mi ystyried yn rheolaidd:<br>• fy rôl o ran cefnogi'r ysgol neu’r lleoliad fel sefydliad sy’n dysgu<br>• fy arferion o ran y safonau proffesiynol<br>• sut i ysgogi gwelliant drwy ddysgu proffesiynol priodol | • Cyfrannu at werthuso a datblygu'r ysgol neu’r lleoliad cyfan fel sefydliad sy’n dysgu drwy arolwg ysgolion fel sefydliadau sy’n dysgu.<br>• Defnyddio’ch pasbort dysgu proffesiynol i fyfyrio ar eich dysgu proffesiynol mewn perthynas â'r safonau proffesiynol.<br>• Ystyried eich nodau gwella’ch hun a chynllunio’ch cynnydd o ran eich taith dysgu proffesiynol gan ddefnyddio'r safonau proffesiynol. | • Trafodaethau rheolaidd o fewn eich tîm neu’ch adran i ystyried sut y gallwch wella eich ysgol neu’ch lleoliad fel sefydliad sy’n dysgu.<br>• Herio'ch arferion eich hun mewn perthynas ag arferion effeithiol iawn a pharhaus continwwm y safonau proffesiynol.<br>• Mynd ati, gyda’ch cydweithwyr, i fyfyrio ar y safonau er mwyn nodi’ch anghenion unigol neu’ch anghenion fel grŵp, a chydweithio i wella arferion. |